



Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn un o bedwar tîm yng Nghymru sy'n gweithio i helpu i sicrhau bod cynigion am gyllid Ewropeaidd yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau'r dyfodol ar lefelau rhanbarthol

Rydym yn gweithio ar draws siroedd Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ac ar draws yr holl sectorau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael cyfranogiad effeithiol ac yn cael llwyddiant.

Mae gwaith Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe yn cefnogi'r rhanbarth i gyflawni ei [strategaeth adfywio economaidd](#) er mwyn gwella rhagolygon ein cymunedau, ein busnesau a'n heconomi.

Os ydych yn ystyried gwneud cais am gyllid gan yr UE neu eich bod eisoes yn gweithredu prosiect gan yr UE, mae croeso ichi gysylltu â ni i gael arweiniad am y modd y gallai eich prosiect gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol, gan wneud cysylltiadau â phrosiectau eraill ac elwa ar astudiaethau achos ac esiamplau o arferion gorau

Mae ceisiadau am gyllid yr UE yn parhau i gael eu datblygu a'u cymeradwyo yn unol ag amcanion y cytunwyd arnynt gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd [Trysorlys y DU](#) yn rhoi gwarant oes lawn i brosiectau a gaiff eu cymeradwyo cyn diwedd Rhagfyr 2020.

Mae'r warant hefyd yn cynnwys buddsoddiadau i sefydliadau yn y DU drwy raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd y mae Cymru yn elwa arnynt, fel rhaglen Iwerddon Cymru, yn ogystal â rhaglenni a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Horizon 2020.

Mae Cystadleuaeth Gwobrau 2018 wedi'i lansio! Oes gennych chi stori lwyddiannus a ariennir gan yr UE?

Rydym yn chwilio am brosiectau a ariennir gan yr UE sy'n dangos yr arferion gorau er mwyn rhoi cyfle iddynt arddangos eu llwyddiannau.

Am ffurflenni cais a mwy o wybodaeth am gategoriâu'r flwyddyn hon gweler [gwefan y gystadleuaeth](#).

10 Medi 2018 yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau.

Cyhoeddir enwau'r enillwyr yn ein digwyddiad blynyddol yn nes ymlaen yn 2018

Brexit: Diogelu Dyfodol Cymru

Yn sgil cyhoeddi [Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#) ym mis Rhagfyr 2017, cynhaliwyd ystod o weithgareddau i geisio safbwyntiau am y syniadau a'r cynigion yn y papur.

Cafodd partneriaid ledled Cymru gyfle i gyflwyno sylwadau trwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys holiadur, arolwg ar-lein a digwyddiadau yn y De a'r Gogledd.

Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi cael eu dadansoddi'n annibynnol ac maent wedi'u cyhoeddi yn [Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#)

Pleidleisiwch! Cymry yn rownd derfynol Gwobrau Regiostars



Dyma eich cyfle i bleidleisio dros eich hoff brosiect yn rhestr fer Gwobrau RegioStars eleni! Bydd y prosiect sy'n cael y nifer fwyaf o bleidleisiau'n cael 'Gwobr Dewis y Cyhoedd' yn ystod seremoni Gwobrau RegioStars ar 9 Hydref ym Mrwsel.

Mae dau brosiect o Gymru ar y rhestr fer eleni, sef **ASTUTE 2020** a **Nant Gwrtheyrn**. Cliciwch ar y dolenni isod i bleidleisio drostynt:

Y dyddiad cau ar gyfer pleidleisio: **7 Hydref 2018**

ASTUTE 2020 (Technolegau Gweithgynhyrchu Uwch Cynaliadwy),
Categori 1 – Cefnogi pontio diwydiannol deallus
Pleidleisiwch am ASTUTE 2020 yma

Nant Gwrtheyrn

Categori 5 – Buddsoddi mewn treftadaeth ddiwylliannol
Pleidleisiwch am Nant Gwrtheyrn yma

Data Perfformiad Rhanbarthol

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai o'r prif ffigurau ar gyfer perfformiad gweithrediadau a ariennir gan yr ESI o fewn Rhanbarth y Bae Abertawe.

Gallwch dael rhaor o wvodaeth am sut mae Cymru'n elwa o aronfevdd yr UE [vma](#).

Dangosydd Perfformiad	Figyrau ar gyfer Rhanbarth Bae Abertawe
Mentrau a Gynorthwywyd ¹	1,197
Mentrau a Grëwyd ²	259
Swyddi a Grëwyd ³	2,459
Cyfranogwyr a Gynorthwywyd	36,922
Cyfranogwyr a Gefnogwyd I Gyflogaeth	2,709
Cyfranogwyr a Enillodd Gymwysterau	12,343
Cefranogwyr Mewn Addusg / Hyfforddiant	1,464

Ffynhonnell: SCEC, 31/07/2018

¹ Cyfanswm y Mentrau sy'n derbyn dangosyddion cymorth anariannol o dan Raglenni Gweithredol ERDF

² Cyfanswm y dangosyddion a gefnogir gan fentrau newydd o dan Raglenni Gweithredol ERDF

³ Cyfanswm y cynnydd Cyflogaeth mewn dangosyddion mentrau â chymorth o dan Raglenni Gweithredol ERDF

Bargen Ddinesig Bae Abertawe



Delwedd o'r Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd gwerth £200 miliwn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Llanelli

Mae rhaglen fuddsoddi gwerth £1.3 biliwn mewn 11 o brosiectau mawr ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe wedi cymryd cam mawr ymlaen.

Bellach mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Abertawe, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cytundeb Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Mae'r Cytundeb Cyd-bwyllgor, sy'n amlinellu egwyddorion y Fargen Ddinesig, wedi'i gymeradwyo a golyga hyn y gellir sefydlu strwythur llywodraethu y Fargen Ddinesig yn ffurfiol. Bydd y strwythur hwn yn cynnwys Cyd-bwyllgor a fydd yn goruchwyllo pob agwedd ar y Fargen Ddinesig, yn ogystal â Bwrdd Strategaeth Economaidd â chynrychiolwyr o'r sector preifat. Bydd y Cyd-bwyllgor yn cwrdd am y tro cyntaf ddiwedd Awst, ac mae Ed Tomp, sef Is-lywydd a Rheolwr Cyffredinol Valero UK, eisoes wedi cael ei ddewis fel y cadeirydd a ffafir ar gyfer y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

Mae'r Fargen Ddinesig yn cael ei hariannu, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes, gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r Fargen dan arweiniad y pedwar awdurdod lleol yn y rhanbarth, ynghyd â Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a phartneriaid o'r sector preifat.

Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe ac Arweinydd Arweiniol Bargen Ddinesig Bae Abertawe: "Mae hwn yn gam pwysig oherwydd mae'n golygu ein bod bellach yn gallu dechrau cyflwyno Bargen Ddinesig Bae Abertawe er lles pobl ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

"Mae'r Cytundeb Cyd-bwyllgor yn sylfaen hanfodol ac mae'n bwysig bod y cytundeb ar waith er mwyn i Fargen Ddinesig Bae Abertawe symud ymlaen, felly mae'r ffaith bod yr holl bartneriaid wedi'i chymeradwyo yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol cyffrous iawn. Bydd strwythur llywodraethu ffurfiol ar gyfer y Fargen Ddinesig yn cael ei gyflwyno cyn bo hir am y tro cyntaf, a fydd yn arwain, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes, at gael cyllid ar gyfer pob un o'r 11 prosiect trawsnewidiol.

"Dros y 15 mlynedd nesaf, bydd y prosiectau hyn gyda'i gilydd yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r Ddinas-ranbarth, gan helpu i gau'r bwch economaidd rhwng De-orllewin Cymru a rhannau llawer mwy cyfoethog o'r DU. Bydd y Fargen Ddinesig hefyd yn creu bron 10,000 o swyddi newydd â chyflogau da mewn sectorau allweddol megis gwyddorau bywyd, gweithgynhyrchu clyfar, ynni a'r diwydiannau creadigol."

O fis Medi ymlaen, bydd y Fargen Ddinesig yn cael ei chynnwys fel rhan o fodiwl menter a chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion ar draws y Sir.

Yn dilyn cyfnod prawf yn Sir Gaerfyrddin, mae'n bosibl y bydd y cynllun yn cael ei estyn yn y dyfodol i ysgolion yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

Cymhwyster ar gyfer disgyblion rhwng 14 a 19 oed yng Nghymru yw Bagloriaeth Cymru. Nod y cymhwyster yw helpu myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau a fydd eu hangen arnynt yn y brifysgol ac yn y gweithle.

Mae'r cyfnod prawf yn Sir Gaerfyrddin yn rhan o'r fenter Sgiliau a Thalentau, sy'n cael ei harwain gan Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru.

GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience



Mae'r Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith yn creu cyfleoedd profiad gwaith teilwredig i fyfyrwyr ifanc

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithle?

Fyddech chi'n hoffi cael cyfle i adnabod talent ac elwa o syniadau newydd?

Rydyn ni'n chwilio am gyflogwyr sy'n gallu cynnal profiad gwaith teilwredig a hyblyg i fyfyrwyr, sy'n cynnwys y canlynol:

Cysgodi gwaith - Hyd at dridiau o brofiad gwaith heb dâl gyda'r myfyriwr yn arsylwi rhywun yn ei rôl er mwyn deall sut mae'n gwneud ei rôl.

Blasu gwaith - Hyd at bedair wythnos o brofiad gwaith heb dâl gyda'r myfyriwr yn cael cyfle i ddysgu am waith a'r amgylchedd gwaith drwy arsylwi ac ymgymryd â rhai tasgau.

Lleoliadau gwaith - Pedair i chwe wythnos o brofiad gwaith gyda thâl gyda'r myfyriwr yn cael profiad uniongyrchol neu'n gweithio ar brosiect.

Byddech yn helpu myfyrwyr ifanc ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru sy'n wynebu rhwystrau o ran cael profiad gwaith i ddatblygu a mireinio eu sgiliau cyflogadwyedd drwy gyfrwng eu profiad gwaith gyda chi. Bydd y sgiliau hyn yn eu helpu i fod yn fwy cyflogadwy.


I gael rhagor o wybodaeth [cliciwch yma](#)

I gofrestru eich diddordeb cysylltwch â'ch prifysgol leol:

Prifysgol Abertawe: gowales@swansea.ac.uk

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: gowales@uwtsd.ac.uk

GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith yw'r enw sydd wedi cael ei roi ar raglen sy'n cael ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) drwy Lywodraeth Cymru. Mae'n gweithredu ledled Cymru. Ei nod yw cefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr ifanc ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru ac mae ar gyfer myfyrwyr ifanc sydd wedi wynebu rhwystrau wrth sicrhau addysg uwch neu brofiad gwaith ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o beidio â sicrhau cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wrth adael eu cwrs addysg uwch.



Bydd BEACON yn helpu busnesau Cymru i ddatblygu ffyrdd newydd o droi cynydu megis rhygwellt, ceirch a miscanthus (hesg eliffant) yn gynnyrch fferyllol, cemegol, tanwydd a chosmetig. Caiff gwaith BEACON ei arwain gan Brifysgol Aberystwyth mewn cydweithrediad â phartneriaid ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe. Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi rhoi £8 miliwn ato drwy Lywodraeth Cymru.

Caiff gwaith BEACON ei arwain gan Brifysgol Aberystwyth mewn cydweithrediad â phartneriaid ym Mhrifysgolion Bangor ac Abertawe. Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi rhoi £8 miliwn ato drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r BEACON yn cynnig mynediad i waith ymchwil, arbenigedd a gwybodaeth prifysgolion yng Nghymru i fusnesau sydd â diddordeb yn y sector bioburo.

Mae hyn yn cynnwys ystod enfawr o fusnesau mewn meysydd mor amrywiol ag: agrocemegolion, biodanwyddau, gorchuddion ac adlynion, cynnyrch cosmetig a gofal personol, olew naws, ireidiau, deunydd maethol, deunydd fferyllol, polymerau arbenigol, gwlychwyr, triniaeth elifion a dŵr, er enghraifft.

Gall partneriaid y BEACON helpu â'r canlynol:

Ffurio biogyfansoddion newydd

Allwthio / bioblastigau

Cemegau / cymwysiadau newydd

Peirianeg fetabolig burumau

Modelu proteinau megis ensymau, er enghraifft ar gyfer y diwydiant bwyd neu fiobrosesu

Am fwy o wybodaeth gweler <http://beaconwales.org>

Astudiaeth Achos

Dyma sut mae cwmni lleol wedi cydweithio â gweithrediad BEACON:

NappiCycle yw un o adrannau masnachu Natural UK, y cwmni annibynnol mwyaf ung Nghymru ym maes gwasanaethau ystafell ymoichi a chasglu gwastraff clinigol, gan ymdrin â gwastraff hylendid a glanweithiol (e.e. cewynnau a phadiau anymatal o gartrefi nyrsio a phreswyl). I ddechrau, cysylltodd BEACON â'r cwmni yn Rhydaman i ddysgu mwy am ei broses unigryw ac arloesol ac i drafod cyfleoedd posibl am farchnadoedd a chymwysiadau newydd ar gyfer ffrwd wastraff ffibr cellwlos y cwmni.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cliciwch [yma](#) am rai o gyflawniadau BEACON

Ewrop Greadigol

Nod rhaglen Ewrop Greadigol yw cefnogi sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol Ewrop.

Mae'r gwahanol gynlluniau cyllido yn annog cyfranogwyr yn y sector creadigol, diwylliannol a chlyweledol i weithredu ledled Ewrop er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn yr oes ddigidol.

I gael rhagor o wybodaeth ac i agor galwadau, cliciwch [yma](#)

Interreg Gogledd Orllewin Ewrop

Mae'r [wythfed alwad](#) am gynigion prosiectau bellach ar agor. Y dyddiad cau yw 22 Tachwedd 2018.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Horizon Ewrop – y rhaglen fframwaith ymchwil ac arloesi nesaf

Ar 7 Mehefin 2018, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynigion ar gyfer Horizon Ewrop, sy'n olynu Horizon 2020. Mae'r ddogfen a rhagor o wybodaeth am y rhaglen newydd i'w cael **yma**

Sesiwn Wybodaeth Horizon 2020 ar gyfer Gweithgynhyrchu Uwch yng Nghymru.

Caerdydd, 11 Medi

Sesiwn wybodaeth sy'n dwyn ynghyd bartneriaid posib i gyd-fynd ag agor galwadau Horizon 2020 sydd o dan y Rhaglen waith Nanotechnoleg, Deunyddiau Uwch, Biotechnoleg a Uwch Gweithgynhyrchu a Phrosesu (NMBP), rhaglen waith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), a rhaglen waith Platfformau Arloesi Digidol (DT).

Mae mwy o wybodaeth ar gael [yma](#)

ERASMUS+

Erasmus+ yw rhaglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuencid a chwaraeon. Mae'n rhedeg am saith mlynedd, o 2014 tan 2020, ac estynnir gwahoddiad i sefydliadau ymgeisio am gyllid bob blwyddyn er mwyn cyflawni gweithgareddau creadigol a gwerth chweil.

I ddod o hyd i ddyddiadau cau, llawlyfr y rhaglen a rhagor o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cliciwch [yma](#) am y newyddion diweddaraf gan ERASMUS +

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Mae'r cyfleoedd cyllid cynllun RDG canlynol bellach ar agor:

Sustainable Management Scheme

Bydd y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer amryfal weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli. Bydd hynny, yn ei dro, yn cyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Mae'r grant ar gael i amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sy'n mynd ati i gydweithredu ar gynlluniau:

- BBaChau a busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil
- ffermwyr, coedwigwyr, rheolwyr mathau eraill o dir
- grwpiau cymunedol neu wirfoddol (gan gynnwys pob sefydliad anllywodraethol), cymdeithasau perchenogion, coetiroedd cymunedol, ac ymddiriedolaethau
- awdurdodau lleol.

Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor tan 6 Medi 2018

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Bwyd

Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor tan 19 Medi 2018

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) yn buddsoddi cyfalaf i helpu prosiectau sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cael helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

Mae'n buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod nad yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn cael eu helpu.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Grant Busnes i Ffermydd

Ffenestr Mynegi Diddordeb ar agor tan 5 Hydref 2018

Nod y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) yw helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

Mae'r grant yn cyfrannu tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau sydd wedi'u nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i fentrau ffermydd.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector Twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei defnyddio naill ai i greu cynnyrch newydd o safon uchel neu i ddiweddarau cynnyrch presennol.

Am fwy o wybodaeth cliciwch [yma](#)

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,

Business Resource Centre,

Parc Amanwy,

Ammanford.

SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@carmarthenshire.gov.uk



**Cronfeydd yr UE:
Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds:
Investing in Wales**